



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Goruchwyliaeth Glinigol i Fydwagedd yng Nghymru

Ebrill 2017



Cynnwys

1	Cefndir a chyd-destun	3
2	Egwyddorion ar gyfer model newydd – safbwynt y DU	4
3	Pennu'r cyfeiriad i Gymru – sicrhau bod lleisiau merched yn cael eu clywed	6
4	Cyfleoedd i fyfrio ar y model 'Prawfesur i'r Dyfodol' presennol	7
5	Model newydd i Gymru	8
5.1	Egwyddorion cyffredinol	10
6	Rôl goruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd	10
7	Paratoi ar gyfer rôl goruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd	12
8	Llywodraethu	12
8.1	Meini prawf dethol	13
8.2	Niferoedd y Gweithlu	13
8.3	Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwagedd	14
8.4	Rheoli a Chymorth	15
8.5	Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd	15
8.6	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	15
8.7	Bydwagedd Annibynnol	16
8.8	Hunaniaeth	17
9	Cyllid	17
10	Gwerthuso'r Model	17
11	Cynllun Cyfathrebu a Gweithredu	17

Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwragedd – Model i Gymru

1 Cefndir a chyd-destun

O ganlyniad i ymchwiliadau i wasanaethau mamolaeth yn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Bae Morecambe, argymhellodd yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd (PHSO 2014) y dylid gwahanu trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio bydwragedd ac y dylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) reoli gweithgarwch rheoleiddio yn uniongyrchol. Yn ôl canfyddiadau adroddiad yr Ombwdsmon, mae'r ffordd y mae'r system statudol bresennol ar gyfer goruchwyllo bydwragedd yn gweithio yn golygu bod perygl na chaiff gwersi eu dysgu o gangymeriadau, ac na all hyn fod o les i famau na babanod.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r GIG yng Nghymru gymryd camau i ddarparu gwasanaethau mamolaeth sy'n rhoi pwyslais canolog ar anghenion y fam a'r teulu, fel bod beichiogrwydd a genedigaeth yn brofiadau diogel a chadarnhaol lle caiff merched eu trin ag urddas a pharch. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, disgwylir i wasanaethau mamolaeth gyflogi gweithlu â lefel uchel o hyfforddiant sy'n gallu darparu gwasanaethau effeithiol a diogel o ansawdd uchel, a gaiff eu hadolygu a'u gwella'n barhaus (2011).

Ar ôl i'r Ombwdsmon gyhoeddi ei argymhellion (2014), comisiynodd yr NMC y King's Fund i adolygu trefniadau goruchwyllo statudol yn y DU a gefnogodd yr argymhelliad y dylai trefniadau goruchwyllo statudol ddod i ben. Er mai dim ond un Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon, cafodd yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol yng Nghymru ei ysgogi gan y canfyddiadau i adolygu trefniadau goruchwyllo a'u diwygio'n sylfaenol, yn benodol er mwyn sicrhau bod rolau goruchwyllo a rheoleiddio yn cael eu gwahanu'n bendant.

Cafodd model 'Prawfesur i'r Dyfodol' newydd ar gyfer goruchwyllo bydwragedd yn statudol yng Nghymru ei ddatblygu gan yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol (LSA), Cyfarwyddwyr Nyrsio, Penaethiaid Bydwreigiaeth, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Llywodraeth Cymru, Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM), clinigwyr yn y maes a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau (Ness a Richards, 2014). Gweledigaeth y model newydd oedd sicrhau bod goruchwylwyr allanol yn rheoli ymchwiliadau mewn modd mwy effeithlon a rhagweithiol er mwyn lleihau rhagfarn a sicrhau cymorth adferol amserol i fydwragedd.

Diben cyffredinol y newid oedd gwella ansawdd trefniadau goruchwyllo statudol yng Nghymru drwy benodi goruchwylwyr bydwagedd llawn amser ar sail cylchdro o 18 mis gyda chymorth gan ddau swyddog bydwreigiaeth llawn amser o'r Awdurdod Goruchwyllo Lleol. Yn sgil eu rolau goruchwyllo pwrpasol, roedd goruchwylwyr bydwagedd yn gallu bod yn fwy gweladwy a hygyrch i fydwragedd a defnyddwyr gwasanaethau. Rhoddwyd y model prawfesur i'r dyfodol ar waith yn ystod haf 2014.

Bu'n rhaid gwneud newidiadau deddfwriaethol yn sgil dod â'r trefniadau goruchwyllo statudol i ben. Cyflwynwyd gorchymyn Adran 60 mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth lywodraethu (Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001) a diddymwyd swyddogaeth Awdurdodau Goruchwyllo Lleol a threfniadau statudol i oruchwyllo bydwagedd, a daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2017.

Er eu bod yn derbyn bod angen gwahanu trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio, roedd Prif Swyddogion Nyrsio y DU yn ymrwymedig i helpu i ddatblygu model goruchwyllo clinigol newydd ar gyfer bydwagedd a chytunwyd ar gyfres o egwyddorion i'w defnyddio i ddatblygu model goruchwyllo clinigol proffesiynol, a arweinir gan gyflogwyr, ar gyfer pob bydwraig, gan gynnwys y rhai mewn rolau fel addysg a pholisi. Sefydlwyd tasglu ym mhob un o wledydd y DU er mwyn paratoi ar gyfer model newydd ac ystyried cyfleoedd i newid, gan ymgorffori'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn y DU er mwyn sicrhau bod cyfleoedd datblygu a chymorth proffesiynol da ar gael i bob bydwraig.

2. Egwyddorion ar gyfer model newydd – safbwynt y DU

Wrth ddatblygu model goruchwyllo clinigol newydd, cytunodd Prif Swyddogion Nyrsio y DU ynghyd â Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdodau Goruchwyllo Lleol, cynrychiolwyr o'r NMC, yr RCM, cynrychiolwyr Bydwagedd Arweiniol ar gyfer Addysg (LME), Cynghorwyr Bydwreigiaeth i'r Llywodraeth a'r bedair Adran Iechyd, ar egwyddorion goruchwyllo bydwagedd ar gyfer pedair gwlad y DU.

Mae'r egwyddorion amlinellol ar gyfer y DU fel a ganlyn:

- Mae'n cynnal ac yn gwella ansawdd a, thrwy hynny, yn amddiffyn y cyhoedd
- Mae'n gymwys i bob bydwraig gofrestredig waeth beth fo'i gwaith a'i dull cyflogaeth

- Mae system goruchwyllo bydwagedd yn agwedd hanfodol ar ymarfer bydwreigiaeth cyfoes ac mae angen goruchwylwyr sydd â digon o arbenigedd a phrofiad i gefnogi bydwagedd cofrestredig
- Dylai bydwagedd gael eu goruchwyllo o leiaf unwaith y flwyddyn
- Mae goruchwyllo yn bartneriaeth ragweithiol, ddatblygiadol a chefnogol rhwng bydwraig a'r goruchwyllydd ac mae'n cysylltu â llywodraethu clinigol effeithiol
- Mae goruchwylwyr yn cyflawni rolau arwain proffesiynol a gallant fod mewn rolau rheoli neu'n rheolwr llinell i'r fydwaig dan oruchwyliaeth, ond nid yw hynny'n hanfodol
- Mae'n rhaid i oruchwylwyr fod yn fydwragedd cofrestredig eu hunain
- Caiff goruchwylwyr eu paratoi'n ddigonol ac mae ganddynt ddigon o brofiad i fod yn feirniadol ac yn gefnogol
- Caiff goruchwylwyr eu dethol gan benaethiaid bydwreigiaeth a dylid defnyddio adborth gan gymheiriaid i lywio'r broses dethol
- Gellir dethol goruchwylwyr am gyfnod penodedig a rhoddir ystyriaeth i fabwysiadu system lle caiff eu sgiliau eu diweddarau a lle caiff goruchwylwyr eu symud i mewn ac allan o rolau goruchwyllo ar sail cylchdro rheolaidd
- Mae'n hanfodol cydymffurfio â Chod yr NMC (2015)
- Mae'n hanfodol cydymffurfio â phroses ailddilysu'r NMC a bydd pob un o aelodau cofrestredig yr NMC yn dilyn yr un broses
- Yr unig wybodaeth y dylai'r NMC ei dal am fydwragedd sy'n ymarfer yw gwybodaeth sy'n helpu i amddiffyn y cyhoedd
- Cyflogwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob bydwraig gofrestrredig yn cael ei goruchwyllo
- Mae cyfrifoldeb ar bob bydwraig gofrestrredig i drefnu ei bod yn cael ei goruchwyllo, hyd yn oed os yw'n hunangyflogedig neu os nad yw'n gweithio'n rheolaidd i un cyflogwr bob amser
- Ni ddylai unrhyw system newydd fod yn fwy costus na'r system bresennol a dylid defnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn effeithlon
- I'r mwyafrif o fydwragedd cyflogedig, dylai fod eglurder ynghylch dilysrwydd ac arwahanrwydd goruchwyliaeth fel agwedd ar arfer da proffesiynol ac arfarnu fel un o gyfrifoldebau'r cyflogwr

3 Pennu'r cyfeiriad i Gymru – sicrhau bod lleisiau merched yn cael eu clywed

Gan ystyried yr egwyddorion a amlinellwyd gan y Prif Swyddogion Nyrsio a rhanddeiliaid uwch eraill yn y DU, ystyriodd y tasglu yng Nghymru y broses o ddatblygu model newydd i Gymru a daeth i'r casgliad ei bod yn hanfodol bod lleisiau merched (defnyddwyr gwasanaethau) yn cael eu clywed hefyd. Rhaid rhoi pob cyfle i ferched leisio eu barn fel y gallant wneud dewisiadau hyddysg am bob agwedd ar eu gofal, gan gynnwys cynllunio'r enedigaeth o'u dewis yn yr amgylchedd o'u dewis. Bydd y model goruchwyllo clinigol newydd ar gyfer bydwagedd yng Nghymru yn cefnogi ac yn galluogi bydwagedd i helpu merched i wneud dewisiadau am eu gofal mamolaeth. Mae cyfrifoldeb ar bob bydwraig i roi gwybodaeth ddiuedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ferched a bod yn agored ac yn onest wrth drafod a chynllunio gofal, yn enwedig pan nad yw dewisiadau geni merch o reidrwydd yn cyd-fynd ag ymarfer cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth na pholisïau na chanllawiau lleol a chenedlaethol.

Er y gallai bydwagedd fod yn awyddus i drafod hyn a gofyn am gymorth gan eu goruchwyllydd clinigol, mae'n bwysig bod bydwraig y mae'r ferch wedi meithrin cydberthynas ymddiriedus â hi yn gallu cynllunio gofal gyda'r ferch. Fodd bynnag, mae angen cymorth ychwanegol ar rai merched yn ystod beichiogrwydd â'r cyfnod ôl-enedigol yn ogystal â'r cyfle i gael sesiwn dadfrifio yn dilyn genedigaeth drawmatig. Mae hyn yn galw am amser ac ymrwymiad gan fydwagedd sensitif a medrus, nad oes yn rhaid iddynt fod yn oruchwylwyr clinigol.

Ceir llawer o enghreifftiau o arfer da yng Nghymru sydd eisoes yn rhan o ymarfer clinigol ac sydd y tu allan i drefniadau goruchwyllo statudol ar gyfer bydwagedd. Er enghraifft, mae llawer o Fyrddau Iechyd eisoes yn cynnal clinigau 'Dewis Genedigaeth' i ferched a all fod yn ystyried ceisiadau anarferol o safbwynt esgor a genedigaeth. Fel arfer, caiff y clinigau hyn eu hwyluso gan fydwagedd profiadol nad ydynt yn oruchwylwyr bydwagedd a benodwyd gan yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol. Mae pob Bwrdd Iechyd yn defnyddio systemau rheoli risg, prosesau llywodraethu a chyfleoedd datblygu proffesiynol i sicrhau bod uwch fydwagedd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ymchwilio, adborth a dadfrifio gyda merched. Gall bydwagedd ymgynghorol a bydwagedd datblygu ymarfer hefyd chwarae rôl bwysig o ran arwain a datblygu; gan helpu a galluogi bydwagedd eraill i fagu hyder i gefnogi merched mewn sefyllfaoedd cymhleth.

Mae dyletswydd ar bob Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau arbenigol, pwrpasol ac ymatebol a sicrhau bod merched yn cael gwybodaeth glir am sut i gael gafael ar wasanaethau o'r fath. Mae Byrddau Iechyd wedi ystyried sut i gyflawni hyn pan na fydd rôl oruchwylio statudol na rota goruchwylio 'ar alw' ar gael mwyach er mwyn helpu merched y gallai fod angen cyngor penodol arnynt y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae trefniadau lleol ar waith o fewn Byrddau Iechyd i sicrhau bod modd cael cyngor gan uwch fydwragedd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

4 Cyfleoedd i fyfyrio ar y model 'Prawfesur i'r Dyfodol' presennol

Mae'r tasglu yng Nghymru wedi meddwl yn ofalus am y broses o ddatblygu model goruchwylio clinigol ôl-statudol ac wedi cynnig y dylid cadw elfennau mwyaf llwyddiannus y model 'Prawfesur i'r Dyfodol'. Mae'r rhain yn cynnwys cadw'r rôl bwrpasol a pharhau â goruchwyliaeth grŵp.

Cafodd canfyddiadau'r archwiliad a gynhaliwyd o'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru yn 2016 (Darra et al, 2016) eu hystyried wrth wneud penderfyniadau hefyd. Canfu'r archwiliad fod bydwagedd a bydwagedd dan hyfforddiant yn awyddus i'w goruchwylwyr clinigol ymgymryd â gweithgareddau penodol a meddu ar nodweddion arbennig. Dyma grynodedb:

Dylai Goruchwylydd Bydwagedd wneud y canlynol:

- Bod yn gyswllt o ran cyfleoedd i ddatblygu ymarfer
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer cyngor gyrfa a materion yn ymwneud ag ymarfer clinigol
- Rhoi cymorth mewn perthynas â phroses ailddilysu'r NMC
- Helpu bydwagedd i fynd drwy brosesau dadansoddi gwraidd y broblem, ymchwilio a rheoli
- Nodi themâu o ran anghenion dysgu bydwagedd a hwyluso cyfleoedd dysgu rheolaidd
- Nodi arfer da a rhoi adborth arno
- Bod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn ymatebol ac yn gosbedigol

- Gweithio'n agos gyda rolau band 7, gan eu cynghori a'u cefnogi pan nodir ymarfer gwael
- Cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau o ran ymarfer yn gyflym gan ddarparu hyfforddiant priodol ac astudiaethau ychwanegol a mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt waethygu
- Defnyddio sgiliau ac arbenigedd bydwagedd ar gyfer dysgu ychwanegol
- Cynnal ei hygredd clinigol ei hun
- Sicrhau ei fod yn deall diwylliant y gwasanaeth/sut mae'r uned yn gweithio

Rhaid i'r Goruchwylydd feddu ar y nodweddion/rhinweddau canlynol:

- Bod yn ddibynadwy
- Bod yn gefnogol
- Dangos profiad cyffredinol da
- Bod yn hawdd mynd ato
- Bod yn anfarnol
- Deall pwysau cyfredol ar wasanaethau
- Arbenigedd a phrofiad clinigol sylweddol

Un o elfennau creiddiol y model 'Prawfesur i'r Dyfodol' oedd goruchwyliaeth grŵp. Cwblhaodd Prifysgol Abertawe werthusiad bach o oruchwyliaeth grŵp ym mis Gorffennaf 2015 (Darra, 2015). Er i'r gwerthusiad gael ei gynnal o fewn blwyddyn i'r newid, cafwyd ymatebion cadarnhaol iawn, yn enwedig o ran y ffaith bod goruchwyliaeth grŵp yn ddefnyddiol wrth adolygu ymarfer a pharatoi ar gyfer adolygiadau datblygu proffesiynol/personol. Cafodd ei ffafrio hefyd gan ymatebwyr i'r Archwiliad o Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru yn 2016 ac archwiliadau cynharach (Wolfe et al., 2016) ac, felly, caiff y dull goruchwyllo clinigol hwn ei gadw yn y model newydd.

5 Model newydd i Gymru

Mae ceisio gwella ansawdd a diogelwch gofal mamolaeth yn gyson wrth wraidd popeth y mae bydwagedd yn ei wneud a bydd gan y model newydd arfaethedig rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. Mae gofal tosturiol i ferched a'u teuluoedd hefyd yn rhan greiddiol o waith bydwagedd. Er mwyn sicrhau bod pob teulu yn cael hyn bob amser, mae'n rhaid i

fydwragedd ofalu amdanynt eu hunain a bydwragedd eraill hefyd. Mae'n rhaid i hyn fod yn rhan hanfodol o ddatblygiad personol a phroffesiynol:

“Supervision can be an important part of taking care of oneself, staying open to new learning and an indispensable part of the individual's ongoing self-development, self-awareness and commitment to learning” (Hawkins a Shohet 2012).

Mae Hunter a Warren (2013) yn awgrymu bod angen mabwysiadu dull goruchwyllo clinigol sy'n canolbwyntio ar hunanddatblygu drwy oruchwyliaeth grŵp myfyriol yn ogystal â sesiynau goruchwyllo unigol. Maent yn argymhell y dylid rhoi sylw i 'adegau tyngedfennol' yng ngyrfa bydwraig pan y gellid darparu cefnogaeth a chymorth mentora ychwanegol, er enghraifft, yn ystod y flwyddyn diwtoriaeth, neu os bydd bydwraig wedi bod yn rhan o ddigwyddiad clinigol trawmatig neu'n destun cwyn neu ymchwiliad. Y gobaith yw y gall bydwragedd, yn sgil goruchwyliaeth glinigol gefnogol ar yr adegau anodd hyn a thrwy gydol eu gyrfaedd, adeiladu eu cydnerthedd eu hunain a gwella eu gallu i roi gofal cefnogol i ferched a'u teuluoedd.

Mae model Cymru yn ceisio rhoi cyfle i fydwragedd wneud y canlynol:

- Datblygu ymrwymiad i ddysgu
 - Datblygu sgiliau datrys problemau trosglwyddadwy
 - Cael cymorth gan gymheiriaid a rhannu profiadau
 - Rheoli anghenion personol a phroffesiynol
 - Ystyried ymatebion emosiynol i'w gwaith
 - Myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'i herio mewn amgylchedd diogel, cyfrinachol ac ysgogol
 - Cael adborth ar eu sgiliau sydd ar wahân i brosesau rheoli
 - Nodi anghenion datblygu unigol
 - Helpu i fodloni gofynion datblygu proffesiynol parhaus
 - Datrys problemau mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol
 - Gweithredu ar y canlyniadau a myfyrio arnynt
- (Y Comisiwn Ansawdd Gofal 2013)

5.1 Egwyddorion cyffredinol

Mae model Cymru yn ystyried yr uchod i gyd ac yn ceisio ymgorffori elfennau gorau Model Prawfesur i'r Dyfodol Cymru (2014). Felly, bydd yn:

- Cael ei arwain gan gyflogwyr.
- Seiliedig ar oruchwyliaeth grŵp i raddau helaeth.
- Cadw rôl bwrpasol i oruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd (llawn amser gyda hyd at 20% o gyfrifoldeb clinigol).
- Sicrhau bod gan y rôl **Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd** broffil ledled Cymru.
- Cynnwys egwyddorion gofynion addysgol y cytunwyd arnynt mewn perthynas â pharatoi goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd, gan gynnwys arwain, hyfforddi, cydnerthedd, dysgu gweithredol a gwella ansawdd.
- Cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i ddwyn Byrddau Iechyd i gyfrif er mwyn darparu goruchwyliaeth glinigol ar gyfer bydwagedd. (Bydd goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer penaethiaid bydwreigiaeth yn unol â gofynion bwrdd perfformiad mamolaeth Llywodraeth Cymru).
- Meddu ar strwythurau llywodraethu clir ar gyfer cyfrifoldeb ac atebolrwydd.
- Monitro a gwerthuso'r model a'r rôl.

“Provide a safe and confidential environment for staff to reflect on and discuss their work and their personal and professional responses to their work. The focus is on supporting staff in their personal and professional development and in reflecting on their practice” (Y Comisiwn Ansawdd Gofal 2013).

Nod trefniadau goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd yw ysgogi a helpu bydwagedd i goleddu'r diwylliant ansawdd a diogelwch sy'n gwella canlyniadau i ferched a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys hwyluso rhyngwyneb cadarn rhwng goruchwylwyr clinigol, staff rheoli risg, bydwagedd datblygu ymarfer a strwythurau llywodraethu clinigol o fewn Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgir o ddigwyddiadau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol a bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw themâu neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd goruchwylwyr clinigol yn gwneud hyn drwy ddwy elfen graidd:

1. Dysgu drwy fyfyrio mewn grŵp

2. Cymorth unigol

Cynnig cymorth a gwersi strwythuredig unigol i fydwragedd sy'n wynebu cyfnod tyngedfennol yn eu gyrfa neu sy'n dilyn rhaglenni gwaith sefydliadol mewn perthynas â galluogrwydd neu adroddiadau myfyriol ysgrifenedig ar ofal a roddwyd sy'n nodi gwersi i'w dysgu.

Nid oes angen i waith myfyrio fod yn ffurfiol a gellir ei wneud gyda chymheiriaid mewn ffordd anffurfiol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau bod bydwagedd yn cael cyfle i gael sesiynau myfyrio unigol a goruchwyliaeth grŵp. Ar adegau hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i oruchwylydd clinigol a bydwraig drafod materion yn ymwneud â datblygu ymarfer yn gyfrinachol y tu allan i sesiynau grŵp.

Bydd y model newydd yn adeiladu ar brofiad y Model Prawfesur i'r Dyfodol yng Nghymru (Ness a Richards, 2014) drwy roi cyfle llawn amser i fydwragedd ar sail cylchdro o 3 blynedd o leiaf, gan gynnal adolygiad ar ôl hynny a rhoi cyfle iddynt ddychwelyd i ymarfer clinigol. Argymhellir bod ymarfer clinigol yn cyfrif am o leiaf 20% o waith goruchwylwyr clinigol yng Nghymru er mwyn eu galluogi i gadw eu hygyrddedd clinigol. Gan ei bod yn rôl arwain allweddol, byddai goruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd yn bodloni meini prawf gwybodaeth a sgiliau Band 7 yr Agenda ar gyfer Newid (Atodiad 1), ond bydd yn rhaid i Fyrddau Iechyd unigol fynd i'r afael â gweithdrefnau paru swyddi mewnol. O dan y model newydd, bydd yn rhaid cynnwys 'Cynllunio Swyddi' yn y disgrifiad swydd er mwyn sicrhau y caiff amser ei neilltuo i'r rôl a'r gwaith o gyflawni rhaglen waith flynyddol.

Mae disgrifiad swydd / proffil rôl wedi cael eu datblygu ar gyfer Byrddau Iechyd yn unol â'r uchod i gyd ac maent yn adlewyrchu Cod yr NMC (2015) o ran blaenoriaethu pobl, ymarfer yn effeithiol, cynnal diogelwch a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth.

7 Paratoi ar gyfer rôl goruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd

Er mwyn dod yn oruchwylydd clinigol, bydd yn rhaid i fydwrraig ddangos ei bod wedi llwyddo i gwblhau rhaglen addysg academiaidd ffurfiol. Bydd yn rhaid gweithio tuag at neu gyflawni modiwl MSc/MA sy'n werth o leiaf 20 o gredydau ym maes arweinyddiaeth glinigol er mwyn

cael eich penodi yn oruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd. Bydd y modiwlau'n cynnwys:-

- Arweinyddiaeth
- Hyfforddi a mentora
- Arwain a hwyluso setiau dysgu gweithredol
- Gwerthoedd proffesiynol ac ymreolaeth
- Cydnerthedd – a meithrin cydnerthedd mewn eraill

Yn ogystal, gall fod yn rhaid i oruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd ymgymryd â phrosiect seiliedig ar waith sy'n dangos cyfraniad at yr agenda ansawdd a diogelwch. Er enghraifft, yn unol â gofynion y bwrdd iechyd / sefydliad, gall fod yn rhaid i'r fydwaig sy'n paratoi i fod yn oruchwylydd clinigol ar gyfer bydwagedd gwblhau dyfarniad 'Arian' Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd (IQT) (neu ddyfarniad tebyg).

8 Llywodraethu

Mae goruchwyliaeth glinigol ar gyfer bydwagedd yng Nghymru yn cynnwys holl aelodau bydwreigiaeth cofrestredig presennol yr NMC mewn rolau ymarfer clinigol, gan gynnwys y rhai mewn rolau rheoli neu addysgu. Nid yw goruchwyliaeth glinigol ar gyfer bydwagedd yng Nghymru yn gymwys i fydwragedd dan hyfforddiant cyn iddynt gofrestru; fodd bynnag, anogir Byrddau Iechyd i hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad o drefniadau goruchwyllo clinigol a'r model newydd yn ystod lleoliadau ymarfer. Gallai Byrddau Iechyd ystyried rhoi trefniadau ar waith i alluogi bydwagedd sy'n gweithio y tu allan i Fyrddau Iechyd brynu goruchwyliaeth glinigol yn ôl yr angen. Mater i sefydliadau unigol fydd penderfynu beth sydd ei angen ar gyflogaion nad ydynt yn darparu gofal bydwreigiaeth uniongyrchol i ferched ac asesu'r gwerth ychwanegol sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth glinigol yn yr amgylchiadau hyn.

8.1 Meini Prawf Dethol

Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am recriwtio goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer penodi yn unol â phroffil y rôl, drwy brosesau a

gweithdrefnau sefydliadol. Rhaid i ymgeiswyr geisio a chael caniatâd eu rheolwyr cyn gwneud cais. Bydd yn rhaid i ddarpar ymgeiswyr lunio ‘manifesto’ ac ar ôl hynny, cynhelir cyfuniad o adolygiadau bydwagedd, etholiadau a chyfweliadau ffurfiol er mwyn penodi’r ymgeisydd llwyddiannus i’r rôl. Ystyrir achredu gwaith dysgu blaenorol hefyd yn achos y rhai sy’n cyd-fynd â’r proffil rôl a’r manyleb person.

8.2 Niferoedd y Gweithlu

Caiff un goruchwylydd clinigol ei ddyrannu i bob 125 o fydwragedd. Mae’r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar y model cyfredol, sef y model Prawfesur i’r Dyfodol ar gyfer Goruchwyliaeth yng Nghymru (2014). Mae penaethiaid bydwreigiaeth yng Nghymru wedi cadarnhau bod y gymhareb hon yn bodloni gofynion presennol. Er na fydd angen mwyach i oruchwylwyr clinigol gynnal ymchwiliadau i ymarfer bydwreigiaeth, bydd eu llwyth gwaith yn adlewyrchu nifer yr oriau gorfodol arfaethedig sydd eu hangen i roi goruchwyliaeth glinigol i fydwragedd (mewn grwpiau ac yn unigol) a helpu bydwagedd sydd wrthi’n adfer eu hymarfer e.e. drwy raglenni galluogrwydd. Bydd yn rhaid i oruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd ddangos hygrededd clinigol gan ymrwymo hyd at 20% o’u hamser i ymarfer clinigol er mwyn cefnogi bydwagedd.

Bwrdd Iechyd	Bydwagedd	SoM wte	Oriau SoM y mis	Cymhareb wedi’i haddasu
Abertawe Bro Morgannwg	302	2.2wte	250	1:12
Aneurin Bevan	316	2.4wte	273	1:11
Betsi Cadwaladr	383	3.0wte	342	1:11
Caerdydd a’r Fro	278	2.2wte	205	1:11
Cwm Taf	204	1.6wte	205	1:15
Hywel Dda	205	1.6wte	182	1:12
Powys	46	0.4wte	45	1:11

*Mae’r tabl uchod yn dangos gofynion y model Prawfesur i’r Dyfodol ar gyfer Goruchwyliaeth yng Nghymru (2014)

8.3 Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwagedd

Cafwyd gwerthusiad cadarnhaol o fyfyrion drwy oruchwyliaeth grŵp yng Nghymru (Darra, 2015; Wolfe et al., 2016) ond mae'n gysyniad cymharol newydd i fydwagedd. Felly, bydd y model newydd yn sicrhau bod sesiynau goruchwyllo grŵp gorfodol yn rhan ganolog ohono. Efallai na fydd cyswllt unwaith y flwyddyn â goruchwyllydd clinigol yn ddigon i sefydlu goruchwyliaeth fel arfer da a sicrhau bod bydwagedd yn magu hyder i'w defnyddio fel proses ddysgu werthfawr. Mewn cyferbyniad, efallai na fydd yn bosibl i Fyrddau Iechyd oruchwyllo bydwagedd yn aml a gall fod yn ddiangen. Yn ogystal â sesiynau goruchwyllo grŵp gorfodol, efallai y bydd adegau pan y caiff goruchwyliaeth ei defnyddio i helpu bydwagedd sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfnod hir. Bydd tair lefel o gyswllt yn rhan o drefniadau goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd, sef:

Gorfodol / Ffurfiol

Rhaid i bob bydwraig ymgymryd â gweithgareddau goruchwyllo clinigol am bedair awr y flwyddyn – y mae'n rhaid i ddwy awr ohonynt fod yn sesiynau goruchwyliaeth grŵp.

Argymhellir - Ar adegau tyngedfennol yng ngyrfa bydwraig, er enghraifft

- Cyn neu ar ôl newid rôl
- Ar ôl cyfnod hir o absenoldeb oherwydd salwch
- Ar ôl dychwelyd o gyfnod mamolaeth
- Ar ôl dychwelyd o seibiant gyrfa
- Am gyngor ac arweiniad gyrfa

Ar gais

Gall bydwraig ddewis mynd i gyfarfod/fforwm a arweinir gan oruchwyllydd clinigol ar gyfer bydwagedd.

Gall cymorth unigol gan oruchwyllydd clinigol ar gais bydwraig fod yn fuddiol yn enwedig mewn cyfnodau o straen, her neu newid - er mwyn cael cyngor ac arweiniad.

Gall y cyflogwr argymhell hyn ar adegau hefyd - er enghraifft, os bydd angen cymorth ac arweiniad ar fydwraig i gwblhau rhaglenni dysgu unigol a nodwyd gan y sefydliad e.e. drwy weithdrefnau 'galluogrwydd'.

8.4 Rheoli a chymorth

Rheolwr llinell y goruchwyllydd clinigol ar gyfer bydwagedd fydd yr uwch fydwraig a bydd yn atebol yn broffesiynol i'r pennaeth bydwreigiaeth. Mae gan y rôl gysylltiadau agos â risg, llywodraethu a datblygu ymarfer ac mae cyfle i'r goruchwyllydd clinigol ar gyfer bydwagedd fod yn asiant ar gyfer newid, gan sicrhau bod unrhyw wersi neu themâu sy'n deillio o oruchwyliaeth grŵp a phrosesau rheoli risg yn cael eu rhannu a bod newidiadau yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Dylai goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd gael cymorth o ddydd i ddydd gan eu rheolwr llinell.

8.5 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd

Bydd goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd yn cael amser bob blwyddyn i ddatblygu cynllun gwaith, cymryd rhan mewn goruchwyliaeth grŵp a gwaith adolygu cymheiriaid. Yn Archwiliad Awdurdod Goruchwyllo Lleol Cymru yn 2016 (Darra et al., 2016) nodwyd y buddiannau a welwyd pan fo goruchwylwyr yn cydweithio â'i gilydd ac felly bydd y model newydd yn cynnwys DPP chwarterol ar gyfer goruchwylwyr clinigol ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y gall goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd gyfarfod a dysgu â'i gilydd a nodi themâu a thueddiadau cenedlaethol i'w rhannu ag arweinwyr proffesiynol uwch o Wasanaethau Mamolaeth mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru.

8.6 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Caiff effaith a chanlyniadau'r rôl eu monitro drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau). Caiff adroddiadau blynyddol eu paratoi ar y DPAau hyn er mwyn rhoi sicrwydd i'r Prif Nyrs / Cyfarwyddwr Nyrsio, drwy strwythurau ansawdd a diogelwch y Bwrdd Iechyd, fod prosesau goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd yn cael eu rhoi ar waith yn llawn a bod amcanion yn cael eu cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael sicrwydd drwy'r Byrddau Perfformiad Mamolaeth presennol yn flynyddol.

DPA 1 Mapio Adnoddau - Gall Byrddau Iechyd ddangos, drwy'r Cynllun Gweithredu ac Integredig Tymor Canolig Blyneddol, bod trefniadau goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd yn cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol fel rhan o fusnes craidd y Sefydliad.

DPA 2 Datblygiad Proffesiynol Parhaus - Gall Byrddau Iechyd ddangos bod y goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd wedi mynychu 3 allan o 4 digwyddiad dysgu DPP bob blwyddyn a'i fod yn gallu rhoi tystiolaeth o'r hyn a ddysgwyd

DPA 3 Goruchwyliaeth Glinigol ar gyfer Bydwagedd - Gall Byrddau Iechyd ddangos bob blwyddyn bod pob bydwraig a gyflogir ganddynt wedi ymgymryd â'r oriau gorfodol ar gyfer goruchwyliaeth grŵp a goruchwyliaeth unigol

DPA 4 Bydwagedd sydd Newydd Gymhwyso/Tiwtoriaeth - Gall Byrddau Iechyd ddangos bod pob bydwraig sydd newydd gymhwyso/tiwtoriaeth wedi cyfarfod â'i goruchwyllo clinigol penodol deirgwaith yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl iddi gael ei chyflogi/cofrestru

DPA 5 Nodi Themâu a Thueddiadau a Dysgu ohonynt - Gall Byrddau Iechyd ddangos eu bod yn gweithredu ar unrhyw themâu neu dueddiadau a nodir drwy brosesau rheoli risg / llywodraethu clinigol / archwilio / goruchwyllo clinigol a bod tystiolaeth o waith dysgu

DPA 6 Adolygiadau gan Gymheiriaid - Gall Byrddau Iechyd ddangos tystiolaeth y caiff adolygiadau gan gymheiriaid eu cynnal o drefniadau goruchwyllo clinigol ar gyfer bydwagedd bob blwyddyn ac y caiff adolygwr lleig ei gynnwys fel rhan o'r tîm adolygu

8.7 Bydwagedd annibynnol

Mae bydwagedd yn gyfrifol am eu datblygiad proffesiynol eu hunain ac o ganlyniad i hynny, bydd ganddynt gyfrifoldeb proffesiynol i sicrhau bod eu hanghenion eu hunain o ran goruchwyliaeth glinigol wedi'u diwallu. Dylid annog bydwagedd annibynnol i fanteisio ar gyfleoedd i gael goruchwyliaeth glinigol gan eu Bwrdd Iechyd agosaf yn ychwanegol at ofynion ailddilysu'r NMC.

8.8 Hunaniaeth

Bydd gan Oruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd yng Nghymru hunaniaeth glir er mwyn cefnogi merched a hyrwyddo proffesiynoldeb. Mae penaethiaid bydwreigiaeth yng Nghymru wedi cytuno y bydd y Goruchwyllo Clinigol ar gyfer Bydwagedd yn gwisgo tiwnig glas tywyll (Band 7) priodol gyda throwsus cyfatebol.

9 Cyllid

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ymrwymiad i addysg a datblygiad parhaus ar gyfer goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd. Yn ogystal â hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido gwerthusiad ffurfiol o'r model o fewn y ddwy flynedd gyntaf.

Bydd yn rhaid i'r Byrddau Iechyd dalu am yr iwnifform. Fodd bynnag, mae Byrddau Iechyd yn debygol o wneud arbedion sylweddol o ran costau teithio a threuliau gan na fydd angen i oruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwagedd deithio ledled Cymru mwyach i gynnal ymchwiliadau allanol. Mae'r holl gostau staffio eraill eisoes wedi'u cynnwys yn y Model Prawfesur i'r Dyfodol ar gyfer Goruchwyliaeth (2014).

10 Gwerthuso'r model

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido gwerthusiad ffurfiol o'r model goruchwyliaeth clinigol newydd ar gyfer bydwagedd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r model gael ei roi ar waith; caiff systemau casglu data eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Rhagwelir y gwahoddir tendrau gan ymgeiswyr addas i gynnal y gwerthusiad hwn.

11 Cynllun Cyfathrebu a Gweithredu

Cafodd y model newydd ar gyfer goruchwyliaeth clinigol ar gyfer bydwagedd yng Nghymru ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol ac Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Rhagfyr 2016. Cafodd Tasglu Cymru Gyfan ei ddisodli gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan ym mis Ionawr 2017. Datblygodd y Grŵp gynllun gweithredu a chyfathrebu er mwyn helpu i newid i'r model newydd. Cafodd gohebiaeth ei datblygu gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan er mwyn hysbysu staff am y newidiadau sydd i ddod a'r hyn y gallant ei ddisgwyl. Bydd y Grŵp Gweithredu yn llunio cynlluniau ar gyfer casglu data, hyfforddi a gwerthuso er mwyn sicrhau fframweithiau llywodraethu clir.

Aelodau Tasglu Cymru Gyfan

Sheila Brown	Bydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg, Prifysgol Bangor
Susanne Darra	Bydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg, Prifysgol Abertawe
Karen Evans	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Polly Ferguson	Cynghorydd Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

Rachel Fielding	Pennaeth Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Suzanne Hardacre	Cyd-gadeirydd Arweiniol, Pennaeth Bydwreigiaeth
Lyndsey Hilldrup	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Julie Hurford	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Karen Jewell	Cyd-gadeirydd Arweiniol, Llywodraeth Cymru
Susan Jose	Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cate Langley	Pennaeth Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Carmel Lloyd	Coleg Brenhinol y Bydwagedd y DU
Karen Phillips	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Karen Roberts	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Wendy Roberts	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Helen Rogers	Cyfarwyddwr, Coleg Brenhinol y Bydwagedd Cymru
Paquita Sanges	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Lynn Smith-Hurley	Goruchwylydd Bydwagedd, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ruth Walker	Prif Nyrs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Maureen Wolfe	Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Louise Woolley	Adolygwr Lleyg, Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Cyfeiriadau

Y Comisiwn Ansawdd Gofal (2013) **Supporting information and guidance: Supporting effective clinical supervision**

Darra S, Sanges P a Wolfe M (2016) Minding the gap in midwifery supervision: findings from the 2016 Welsh LSA audit. **Evidence Based Midwifery** [Yn y Wasg]

Darra S (2015) **A critical review of group supervision (action learning) in the future proofing model of midwifery supervision in Wales** Prifysgol Abertawe s.darra@swansea.ac.uk

Hawkins P, Shohet R (2012) **Supervision in the helping professions (4th Edition)** Gwasg y Brifysgol Agored, Maidenhead, Lloegr

Hunter B, Warren L (2013) **Investigating resilience in midwifery- final report** Prifysgol Caerdydd, Cymru

Ness V, Richards J (2014) Future proofing supervision in Wales: Improving the quality of statutory supervision. **British Journal of Midwifery**, 22(4), 276-280.

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) **Supervisors of midwives, how they can help you** Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, Lloegr

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015) **Y Cod** Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llundain, Lloegr

Yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd (2014) **Investigation reports concerning the University Hospitals of Morecambe Bay** Llyfrfa Ei Mawrhydi, Llundain, Lloegr

Llywodraeth Cymru (2011) **Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru** Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk WG12896

Wolfe M, Lavery J a Darra S (2016) Exploring the value of group supervision in midwifery. Part 2: Evaluation of data from Wales. **British Journal of Midwifery**, 24(4), 288-297.